*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar Dydd Mercher, 24ain Ionawr, 2024 am 2.00 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Jones - Uned Busnes y Cyngor (Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024 am 12pm. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**3. ADBORTH RHAG-GRAFFU PWYLLGORAU**

Er gwybodaeth, derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi adborth a sylwadau mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

**(Tudalennau 15 - 22)**

**ADRODDIADAU SWYDDOG**

**4. DARPARIAETH CLWB BRECWAST AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD AC ARBENNIG A CHYFLWYNO TÂL AM YR ELFEN GOFAL PLANT YCHWANEGOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar ynghylch cynnig i gyflwyno tâl ar gyfer yr elfen gofal plant ychwanegol, sydd ar gael cyn i'r ddarpariaeth clwb brecwast am ddim ddechrau mewn ysgolion cynradd ac arbennig yn Rhondda Cynon Taf, gan nodi y byddai disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM) yn cael eu heithrio o unrhyw dâl.

**(Tudalennau 23 - 132)**

**5. CYNNIG I DDATBLYGU YSGOL ARBENNIG NEWYDD YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad cyhoeddi Hysbysiad Statudol yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i agor ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chyflwyno dalgylchoedd ar gyfer pob un o'r ysgolion arbennig 3-19 oed ar draws RhCT.

**(Tudalennau 133 - 142)**

**6. CYNIGION FFÏOEDD A THALIADAU'R CYNGOR 2024-2025**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am newidiadau arfaethedig i lefelau ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Bydd ymgynghoriad ar y newidiadau yn rhan o gam 2 y broses o ymgynghori ar gyllideb 2024/25 (gyda'r newidiadau arfaethedig i fod ar waith o 1 Ebrill 2024 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny).

**(Tudalennau 143 - 158)**

7. **CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2024-2025**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am setliad llywodraeth leol 2024/2025 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, y bydd yn ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**(Tudalennau 159 - 246)**

8. **ADOLYGU CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio meini prawf a throthwyon ariannol Cronfa Deddf Eglwys Cymru er mwyn sicrhau effaith mwy cadarnhaol ar gymunedau lleol a manteisio i'r eithaf ar y Gronfa.

**(Tudalennau 247 - 252)**

9. **MABWYSIADU'R STRATEGAETH LEOL DDIWYGIEDIG AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n cyflwyno'r Strategaeth Leol Ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Gweithredu i'r Cabinet. Mae'r gwaith eisoes wedi bod yn destun rhag-graffu, ac unwaith i'r Cabinet ei gymeradwyo, bydd yn cael ei anfon at Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**(Tudalennau 253 - 790)**

10. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Stephen Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu